## Gwybodaeth Bellach at Atebion y Gweinidogion

**Gwybodaeth Ychwanegol at OAQ0430(FM) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros v Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar ran Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 3 Mai 2005**

**At Brynle Williams:**

Cyfeiriaf at eich cwestiwn i'r Prif Weinidog, Rhodri Morgan ar 3 Mai 2005 ynghylch lleihau tagfeydd ar brif gyfnewidfeydd. Gofynnwyd imi roi ateb i chi fel y Gweinidog sydd yn gyfrifol am Gludiant.

Ni ystyrir graddfa y tagfeydd ar gyfnewidfeydd ar yr A55 yng Ngogledd Cymru i fod yn broblem fawr, gan ei fod, ar y cyfan, yn digwydd yn ystod cyfnodau gwyliau brig yn unig.

Fe'ch cyfeiriaf at y ddogfen amgaeëdig "Blaenraglen Cefnffyrdd – tudalen 16 paragraff 4.4.2." lle mae'n datgan:-

> "Cafodd y strategaeth ddiweddar ar gyfer gwaith uwchraddio sylweddol ar y coridor hwn ei gwblhau gydag agor y darn 32km o ffordd ddeuol yr A55 ar draws Ynys Môn yn 2001. Fodd bynnag, mae nifer o faterion ar hyd y coridor y mae angen talu sylw iddynt. Y rhain yw lefel y traffig yn ardal Queensferry a'r problemau yr ymdrinnir â nhw gyda gwelliannau unigol ar yr A55 a'r A5. Yn ychwanegol at hyn mae materion yn ymwneud â chysondeb safon ffordd yr A55 rhwng Caer a Bangor. Enghreifftiau o hyn yw alinio'r lôn tua'r dwyrain wrth twnnel Penmaenbach, y gylchfan yn Llanfairfechan ac alinio'r ffordd o Aber i Dai'r Meibion. Mae cynllun ar gyfer cywiro'r broblem gyda'r rhan rhwng Aber a Thai'r Meibion yn cynnwys y broblem llifogydd wedi'i gynnwys yn y rhaglen Atgyweirio ac Uwchraddio. Bydd materion eraill yn destun astudiaeth i sicrhau bod safon gyson ddiogel yn bodoli ar hyd y ffordd gyfan."

O ganlyniad i'r datganiad hwn mae Trafnidiaeth Cymru wedi comisiynu astudiaeth rhwng cyffyrdd 15 a 17 sydd yn cynnwys y cylchfannau ar yr A55 ym Mhenmaenmawr a Llanfairfechan. Disgwylir i'r astudiaeth hon gael ei gorffen yn y dyfodol agos ac i'r mater gael ei ystyried.